



Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol



# Cylchlythyr Tiwtoriaid

Rhifyn 2

# Croeso

**Croeso i'r cylchlythyr cyntaf i diwtoriaid.**

**Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bellach yn ei hail flwyddyn ac mae miloedd o ddysgwyr wedi cofrestru am y tro cyntaf, ac eraill yn parhau ar gyrsiau Cymraeg ledled Cymru.**

'Dyn ni'n gwerthfawrogi'r gwaith sy'n digwydd ar draws Cymru, y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae nifer o brosiectau ar y gweill, o gynllun newydd 'Siarad' a dathlu gŵyl Ar Lafar am yr ail flwyddyn, i gystadlaethau i ddysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Gwobrau Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Mae eich gwaith chi fel tiwtoriaid yn cyfrannu'n helaeth at ddenu, meithrin a chreu siaradwyr Cymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar [marchnata@dysgucymraeg.cymru](mailto:marchnata@dysgucymraeg.cymru) neu ffoniwch **0300 3234324** os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

## **Hawys Roberts**

Prif Swyddog Cyfathrebu y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol  
[\*\*hawys.roberts@dysgucymraeg.cymru\*\*](mailto:hawys.roberts@dysgucymraeg.cymru)



# Ar Lafar

**Gŵyl i ddysgwyr a'u teuluoedd yw 'Ar Lafar', sy'n cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 21 Ebrill ar y cyd rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

Bydd gweithgareddau amrywiol ar gael ar bedwar safle o amgylch Cymru: Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe; Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan; Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis a'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Bydd pecyn newydd o adnoddau i ddysgwyr sy'n ymweld â Sain Ffagan yn cael ei lansio.

Bydd yr adnoddau ar gael ar-lein i bob tiwtor.



## Drama Y Tad: 21 Chwefror – 16 Mawrth

Os dych chi'n dysgu dosbarthiadau Uwch, byddwch chi wedi derbyn dwy wers gyfoes i'w cyflwyno yn eich gwersi hyd yn hyn – un ar y gyfres deledu Un Bore Mercher ac un yn hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru.

Gwers i baratoi dysgwyr ar gyfer cynhyrchiad diweddaraf y Theatr Genedlaethol, Y Tad, yw'r wers nesaf. Drama sy'n ymdrin â phwnc dementia yw hon. Mae'r adnoddau ar gael ar **wefan** y Ganolfan Genedlaethol. Gellir cael rhestr gyflawn o'r daith trwy ddilyn y linc **yma**.



## Safle Rhyngweithiol

Mae bellach yn bosib archebu cwrs a thalu ar-lein ar y Safle Rhyngweithiol newydd, [www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru)

Byddwn hefyd yn cyflwyno diwyg newydd i'r Safle o fewn yr wythnosau nesaf. Diolch i bawb am helpu eu dysgwyr gyda'r cofrestru – cofiwch, os oes unrhyw gwestiynau neu sylwadau, mae croeso mawr i chi gysylltu â ni ar [marchnata@dysgucymraeg.cymru](mailto:marchnata@dysgucymraeg.cymru)